# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 26 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(142)

**Datganiad Personol Antoinette Sandbach**

Gwnaeth Antoinette Sandbach ddatganiad personol yn ymddiheuro am sylwadau a wnaeth yn gyhoeddus y diwrnod blaenorol, a oedd yn cwestiynu barn ddiduedd y Llywydd.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 13 a 15. Tynnwyd cwestiwn 14 yn ôl.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3 a 5 i 13. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**Datganiad y Llywydd**

Estynnodd y Llywydd ei llongyfarchiadau i staff y Cynulliad Cenedlaethol ar ennill statws Aur Buddsoddwyr mewn Pobl am yr ail dro.

## 4 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26.89 mewn cysylltiad â Biliau arfaethedig Aelodau

Dechreuodd yr eitem am 15.01

**NDM5275 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26.89: Balotau ar gyfer Biliau arfaethedig Aelod' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2013; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 26.89, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM5262**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai'r setliad datganoli fod yn seiliedig ar fodel pwerau a gedwir yn ôl.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 2 | 6 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol

Dechreuodd yr eitem am 15.54

**NDM5274 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 03-13 i’r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol – a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 2 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 17.56;

2. Yn cymeradwyo Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Lobïo a Mynediad at Aelodau’r Cynulliad a nodir yn Atodiad C i’r Adroddiad; a

3. Yn cymeradwyo Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Ffordd mae Grwpiau Trawsbleidiol yn Gweithredu a nodir yn Atodiad D i’r Adroddiad ac sydd i ddod i rym ar 23 Medi 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Pwynt o Drefn**

Cododd Andrew RT Davies Bwynt o Drefn fod y Prif Weinidog wedi gadael y Siambr cyn diwedd y ddadl flaenorol, pan siaradodd ar ran y llywodraeth.

Dyfarnodd y Dirprwy Lywydd fod disgwyl, fel mater o gwrteisi, i Aelodau, gan gynnwys aelodau’r Llywodraeth, aros yn y Siambr hyd nes diwedd eitem y gwnaethant gyfrannu ati.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.33

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5276 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod angen cymorth brys ar fusnesau bach ledled Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chynigion am ymgyrch stryd fawr cyn toriad yr haf;

2. Yn gresynu mai'r gyfradd siopau gwag ar y stryd fawr yng Nghymru yw'r uchaf ar dir mawr Prydain;

3. Yn cydnabod y cynnydd mewn benthyca gan Gyllid Cymru. Fodd bynnag, yn credu bod angen dull mwy lleol o ran cael gafael ar gyllid, ac felly'n galw ar Weinidog yr

Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i weithio gyda Chyllid Cymru i asesu a yw'r pecyn ariannol a gynigir i fusnesau yn gystadleuol yn y tymor hir;

4. Yn nodi'r cynigion a amlinellwyd yn nogfennau Ceidwadwyr Cymru 'A Vision for the Welsh High Street' ac 'Invest Wales' a'u cefnogaeth i fusnesau bach ledled Cymru; a

5. Yn nodi ymhellach bwysigrwydd seilwaith trafnidiaeth i gynorthwyo'r economi genedlaethol a lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 41 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

"ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau ardrethi busnes ar gyfer tenantiaid sy'n cymryd les eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis, er mwyn annog adleoli ac adfywio canol trefi"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 8 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y potensial i brentisiaethau gynyddu elw a chynhyrchiant busnesau bach, ac felly'n galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o wella mynediad at brentisiaethau ar gyfer busnesau bach.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd bancio lleol i dwf economaidd llwyddiannus a chynaliadwy busnesau mewn ardaloedd gwledig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o ehangu'r ddarpariaeth bancio cymunedol ac undebau credyd mewn cymunedau gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod Cyllid Cymru wedi'i gyfyngu yn ei allu i gynnig cyllid am gyfraddau cystadleuol, ac felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ddulliau amgen o gyllido busnesau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r cynigion a amlinellir yn 'Cynllun C: Cynllun i Symud yr Economi Cymreig Ymlaen' gan Blaid Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig a chanol trefi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 5 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach i gynnwys mwy o fusnesau ar y stryd fawr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 28 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5276 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod angen cymorth brys ar fusnesau bach ledled Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chynigion am ymgyrch stryd fawr cyn toriad yr haf;

2. Yn gresynu mai'r gyfradd siopau gwag ar y stryd fawr yng Nghymru yw'r uchaf ar dir mawr Prydain ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau ardrethi busnes ar gyfer tenantiaid sy'n cymryd les eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis, er mwyn annog adleoli ac adfywio canol trefi

3. Yn cydnabod pwysigrwydd bancio lleol i dwf economaidd llwyddiannus a chynaliadwy busnesau mewn ardaloedd gwledig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o ehangu'r ddarpariaeth bancio cymunedol ac undebau credyd mewn cymunedau gwledig.

4. Yn nodi bod Cyllid Cymru wedi'i gyfyngu yn ei allu i gynnig cyllid am gyfraddau cystadleuol, ac felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ddulliau amgen o gyllido busnesau.

5. Yn nodi'r cynigion a amlinellir yn 'Cynllun C: Cynllun i Symud yr Economi Cymreig Ymlaen' gan Blaid Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig a chanol trefi.

6. Yn cydnabod y potensial i brentisiaethau gynyddu elw a chynhyrchiant busnesau bach, ac felly'n galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o wella mynediad at brentisiaethau ar gyfer busnesau bach.

7. Yn cydnabod y cynnydd mewn benthyca gan Gyllid Cymru. Fodd bynnag, yn credu bod angen dull mwy lleol o ran cael gafael ar gyllid, ac felly'n galw ar Weinidog yr

Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i weithio gyda Chyllid Cymru i asesu a yw'r pecyn ariannol a gynigir i fusnesau yn gystadleuol yn y tymor hir;

8. Yn nodi ymhellach bwysigrwydd seilwaith trafnidiaeth i gynorthwyo'r economi genedlaethol a lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 38 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.26

## 8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.30

**NDM5273 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Y Fagl i Rieni: Mae gofal plant rhy ddrud yn atal teuluoedd rhag gweithio

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2013**